

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Y Strategaeth Ryngwladol Ddrafft

## Cyflwyniad

Ers degawdau, mae perthynas Cymru â'r byd wedi cael ei diffinio gan ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Ionawr 2020 yn nodi dechrau cyfnod newydd yn y berthynas hon, ac mae'n bwysicach nag erioed bod Cymru yn sicrhau ei lle ar y llwyfan rhyngwladol. Yn ystod yr un mis gwelwyd cyhoeddi strategaeth ryngwladol newydd i Gymru, sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y berthynas newydd hon ag Ewrop a gweddill y byd.

Mae nifer o gwestiynau heb eu hateb o hyd am ffurf perthynas olaf y DU ag Ewrop wrth inni symud i gyfnod pontio. Mae hyn wedi golygu creu rhywfaint o hyblygrwydd yn y strategaeth er mwyn gallu ymateb wrth i'r berthynas ddatblygu.

Mae'r strategaeth yn nodi tri uchelgais craidd: codi proffil Cymru, tyfu ein heconomi, a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Yn ei hanfod, bydd y strategaeth yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru; mae wedi'i hadeiladu ar set gref o werthoedd ac yn ein gosod ar lwybr at bresenoldeb a dylanwad mwy strategol yn y byd.

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor, a'r broses helaeth o gasglu tystiolaeth, sydd wedi bod yn gyfraniad gwerthfawr wrth i'r strategaeth ryngwladol newydd hon ar gyfer Cymru gael ei datblygu.

## Ymatebion manwl i argymhellion y Pwyllgor

### Nodau a Blaenoriaethau'r Strategaeth Ryngwladol

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod datganiad gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi darlun clir o'r 'gyrchfan derfynol' a ragwelir gan y Llywodraeth ar ddiwedd oes y strategaeth. Dylai nodi'n glir y canlyniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio'u cyflawni drwy'r strategaeth.

### Ymateb: Derbyn

Mae'r strategaeth gyhoeddedig yn nodi tri uchelgais craidd i ddwyn ynghyd ein gwaith rhyngwladol dros y pum mlynedd nesaf. Y rhain yw:

- Byddwn yn **codi proffil Cymru** ar y llwyfan rhyngwladol.
- Byddwn yn **tyfu'r economi** drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiad o'r tu allan.
- Byddwn yn sefydlu Cymru fel cenedl sy'n **gyfrifol ar lefel fyd-eang**.

Mae'n anodd pennu targedau mesuradwy ar adeg pa fo popeth yn y pair o hyn o ran ein perthynas ag Ewrop. Fodd bynnag, mae'r Crynodeb Gweithredol yn nodi rhestr o'r hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf.

## **Goblygiadau Ariannol - Dim**

**Argymhelliad 2.** *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu sicrhau bod sectorau eraill o'r economi, lle gall Cymru ddangos arweinyddiaeth fyd-eang, yn cael eu cynrychioli'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru yn ei gweithgareddau rhyngwladol.*

## **Ymateb: Derbyn**

Drwy gyfrwng y strategaeth hon, mae Llywodraeth Cymru am hyrwyddo Cymru fel cenedl uchelgeisiol sy'n masnachu'n fyd-eang ac sydd wedi symud i ffwrdd oddi wrth ei heconomi draddodiadol, oedd yn seiliedig ar ddiwydiannau trwm, at economi sy'n fywiog, yn fodern ac yn amrywiol ac yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio. Mae'r strategaeth gyhoeddedig yn nodi tri sector sy'n dangos bod y sgiliau a'r gweithlu gan Gymru eisoes i gyflawni hyn.

Mewn sefyllfa gystadleuol, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig dangos arweinyddiaeth ryngwladol mewn rhai sectorau, ond dim ond oriel i dynnu sylw ati yw hon. Mae gan Gymru lu o sectorau amrywiol y gall fod yn falch ohonynt hefyd, ac y gellir eu defnyddio i ddangos ei chryfderau a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig yn fasnachol.

Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn cefnogi'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a bydd y ddwy ddogfen yn ategu ei gilydd er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i gwmnïau yng Nghymru ar y llwyfan rhyngwladol. Yn benodol, mae'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu prosiectau magnet o amgylch diwydiannau eraill, megis y diwydiannau creadigol, gweithgynhyrchu uwch ac ynni adnewyddadwy, i ddenu buddsoddiad i ranbarthau ledled Cymru yn agwedd allweddol ar y ddwy ddogfen. Mae'r strategaeth yn nodi'n glir mai at ddibenion arddangos yn unig y mae'r canolfannau rhagoriaeth a bod Cymru'n croesawu buddsoddiadau gan bob math o ddiwydiant. Cyflëwyd y negeseuon hyn hefyd i bartneriaid allweddol, megis yr Adran Masnach Ryngwladol, i'w hyrwyddo drwy ei gweithgarwch ym maes cymorth busnes rhyngwladol.

## **Goblygiadau Ariannol - Dim.**

### **Cydgysylltu a Chyflawni**

**Argymhelliad 3.** *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod ei gweithgareddau cysylltiadau rhyngwladol yn cael eu cydgysylltu'n well o fewn Llywodraeth Cymru a chyda gweithgareddau Llywodraeth y DU ac asiantaethau'r DU, ac a oes angen mecanwaith ffurfiol i gyflawni'r nod hwn.*

**Argymhelliad 4.** *Rydym yn argymhell bod y strategaeth derfynol yn nodi'n fanylach sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau cymdeithas sifil sy'n dymuno cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.*

## Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na all gyflawni'r agenda rhyngwladol ar ei phen ei hun. Yn hytrach, mae'n cydnabod bod gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol rôl bwysig i'w chwarae o ran dwyn ynghyd yr holl weithgarwch rhyngwladol sy'n digwydd ar draws portffolios y Cabinet drwy'r strategaeth hon, yn ogystal â rôl ehangach o ran cydlynu'r gwaith rhyngwladol sy'n cael ei wneud gan sefydliadau eraill a'r gymdeithas sifil.

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r strategaeth, mae wedi bod yn glir bod awydd ymysg rhanddeiliaid i weithio gyda'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol. Mae ymgysylltiad adeiladol ag adrannau Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau wedi digwydd yn barod, ac mae deunyddiau sy'n hyrwyddo Cymru a'r cynnig Cymreig o amgylch y tair canolfan ratoriaeth wrthi'n cael eu dosbarthu ar draws rhwydwaith Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda grwpiau, fel y sectorau diwylliant a chwaraeon, i ddwyn ynghyd eu cynlluniau rhyngwladol a sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i wneud y mwyaf o effaith ein gweithgarwch tramor, lle bo hynny'n ymarferol ac yn ymarferol, ac i godi proffil Cymru dramor. Mae Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan yn ddiweddar yn dangos pa mor dda y gellir cyflawni hyn ac mae'n fodel cadarnhaol ar gyfer digwyddiadau tramor yn y dyfodol.

Mae'r strategaeth hefyd yn nodi y cynhelir dau gyfarfod y flwyddyn i gydgyssylltu'r gweithgareddau a wneir gan y gymdeithas sifil.

**Goblygiadau ariannol** – Mae costau deunydd cyfathrebu a marchnata yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 5.** *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres fanwl o dargedau mesuradwy a phwyntiau gweithredu a fydd yn gorwedd o dan y strategaeth derfynol. Gallai'r rhain fod yn rhai blwyddyn ar flwyddyn er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru addasu i newidiadau polisi ar lefel Llywodraeth y DU.*

**Argymhelliad 6.** *Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi yn ei hymateb i'r Pwyllgor yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r cynlluniau cyflawni.*

## Ymateb: Derbyn

Mae'r strategaeth gyhoeddedig yn nodi nifer o flaenoriaethau mesuradwy a phwyntiau gweithredu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys:

- Sicrhau cynnydd o 5% yng nghyfraniad allforion i economi Cymru
- Plannu 15 miliwn yn rhagor o goed yn Uganda erbyn 2025
- Meithrin 500,000 o gysylltiadau diaspora.

Mae llawer o'r gweithgarwch a nodir yn y strategaeth yn dibynnu ar fanteision pŵer meddal, ac felly nid yw'n fesuradwy. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgarwch wedi'i feintio. Nid yw'n fwiad cyhoeddi rhagor o gynlluniau manwl ar ben y rhai sydd eisoes wedi'u nodi yn y strategaeth.

**Goblygiadau ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Bydd y gweithgarwch yn cael ei gyflawni o gyllidebau presennol.

### **Cysylltiadau Rhyngwladol**

***Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu ym mha ffordd y mae wedi ystyried sefydlu presenoldeb parhaol yng Ngwlad y Basg, ac os nad yw wedi gwneud hynny, yn amlinellu pa gamau amgen y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod modd cryfhau'r berthynas os na fydd presenoldeb parhaol.*

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r strategaeth yn nodi bod Gwlad y Basg yn berthynas ranbarthol â blaenoriaeth yn Ewrop. Adlewyrchir hyn gan y ffaith ein bod wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chan y cysylltiad cyson yr ydym yn ei gael â chynrychiolwyr Llywodraeth Gwlad y Basg.

Nid ydym wedi gwneud penderfyniad eto ynghylch agor swyddfa yng Ngwlad y Basg. Cyn inni wneud hynny, rydym yn awyddus i adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o ehangu ein swyddfeydd tramor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn y cyfamser mae ein swyddfeydd ym Mharis a Brwsel yn gweithio ar draws de Ewrop, gan gynnwys Sbaen.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim ar hyn o bryd.

***Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'n hargymhelliad 8 blaenorol wedi i'r strategaeth ryngwladol gael ei chwblhau.*

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiadau rheolaidd o effeithlonrwydd a pherfformiad ei holl weithgarwch, gan gynnwys y gwaith a wneir gan ein swyddfeydd tramor. Bydd y Pwyllgor yn parhau i dderbyn ei adroddiadau chwarterol gan y swyddfeydd tramor. Mae llawer o'r gweithgarwch a wnaed gan y swyddfeydd tramor yn ystod chwarter olaf pob blwyddyn ariannol yn canolbwyntio ar gyflwyno rhaglen flynyddol Dydd Gŵyl Dewi yn effeithiol. Hon yw'r gyfres gydgysylltiedig fwyaf o ddigwyddiadau a gynhelir gan Llywodraeth Cymru, a dyma uchafbwynt ei chalendr rhyngwladol. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol diwygiedig o Chwarter 1 y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2020-21.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith archwilio y mae wedi'i wneud gyda'r Undeb Ewropeaidd ac eraill i sicrhau bod Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd, mewn meysydd datganoledig, ar ôl Brexit.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried ei chyfranogiad parhaus mewn nifer o raglenni Ewropeaidd, gan gynnwys y gronfa ymchwil ac arloesi Horizon 2020, Erasmus+, Ewrop Greadigol a'r Cydweithredu Ewropeaidd Tiriogaethol, sy'n cynnwys y rhaglen Interreg Cymru-Iwerddon sy'n werth £100m. Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau a fydd yn cael eu pennu yn ystod y cyfnod pontio. Ar hyn o bryd, bydd Swyddfa Brwsel yn parhau i ymgysylltu ac i fynychu cyfarfodydd a bydd y Pwyllgor yn cael diweddariad ar y gwaith hwn wrth i'r trafodaethau hyn fynd rhagddynt.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol gynnig eglurder am rôl a gweithgarwch swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn y dyfodol yng ngoleuni ffurf derfynol Brexit.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r strategaeth gyhoeddedig yn nodi pwysigrwydd Swyddfa Brwsel o ran cynnal a chryfhau ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'n dweud y bydd angen i rôl Swyddfa Brwsel esblygu wrth inni gael mwy o eglurder ynghylch ein perthynas. Bydd rhagor o wybodaeth am rôl Swyddfa Brwsel yn cael ei darparu i'r Pwyllgor maes o law.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim ar hyn o bryd.